# adrodd**i**ad blynyddol
2023/24



# cydweithio i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol



# cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4

**Cynnydd yn 2023-24** .......... 6

**Gwybodaeth Perfformiad** .......... 11

**Themâu Allweddol** .......... 12

Pob Lleoliad .......... 12

Lleoliadau Gofal Maeth .......... 14

**1. Defnydd Lleoliad** .......... 16

Defnydd Lleoliad Sefydlog .......... 16

Defnydd Lleoliad Newydd .......... 17

Proffl Oedran Plant .......... 8

Man Lleoliadau Newydd .......... 19

Lleoliadau Maethu ALl sydd Ar Gael .......... 20

Terfyniadau Heb Eu Cynllunio – Plant Mewn Gofal Maeth .......... 21

**2. Recriwtio a Chadw Prif Ffrwd** .......... 23

Recriwtio Gofalwyr Maeth Cyffredinol .......... 23

Cadw Gofalwyr Maeth Cyffredinol .......... 25

**3. Pobl Gysylltiedig Recriwtio a Chadw** .......... 27

Recriwtio Gofalwyr Pobl Gysylltiedig Cymru Gyfan .......... 27

Cadw Gofalwyr Maeth Pobl Gysylltiedig Cymru Gyfan .......... 29

**4. Costau Cysylltieidg** .......... 31

# cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ail flwyddyn Maethu Cymru. Mae'n tynnu ar adroddiadau perfformiad gan bob un o'r 22 awdurdod lleol (ALlau) ar gyfer 2023/24, gan gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth weithredu blaenoriaethau cynllun gwaith Maethu Cymru.

Maethu Cymru yw'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu, nid er elw 22 Awdurdod Lleol, gydag arbenigedd maethu lleol.

Esblygodd Maethu Cymru o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC) a oedd yn un o ffrydiau gwaith Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru 'Gwella Canlyniadau i Blant'.

Lansiwyd Maethu Cymru gyda'r nod o roi cyfle i blant aros yn eu hardaloedd lleol, ffynnu a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd trwy ofalwyr maeth â chefnogaeth dda. Y bwriad oedd cynyddu'r gronfa o ofalwyr maeth Awdurdodau Lleol trwy recriwtio a marchnata gwell, a chefnogi cadw gofalwyr trwy ddod â chysondeb i ofalwyr maeth ledled Cymru mewn cynnig gwell o gefnogaeth, hyfforddiant a manteision ychwanegol.

## Rhaglen Waith Maethu Cymru 2023-24

Roedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys camau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys y canlynol:

### Marchnata a Recriwtio Gofalwyr Maeth

Y nod cyffredinol yw cynyddu lleoliadau lleol ac felly gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Trwy gyflawni strategaeth farchnata gynhwysfawr sydd wedi ymwreiddio brand Maethu Cymru a gweithredu arfer gorau wrth recriwtio, rydym wedi gwrthdroi tueddiadau'r blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd o 12% mewn cymeradwyaeth o faethu, gan greu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer twf yn y dyfodol.

### Cadw Gofalwyr Maeth

Nod Maethu Cymru yw gwella cyfraddau boddhad gofalwyr maeth ochr yn ochr â chreu gweithlu gofalwyr maeth gwydn a sefydlog, gyda chefnogaeth gweithlu o ymarferwyr gwydn a sefydlog. Mae ein gwaith yn cynnwys datblygu ymhellach yr ymrwymiad cenedlaethol ar gyfer cymorth ac ymwreiddio'r fframwaith dysgu a datblygu ymhellach. Trwy'r gwaith hwn gwelsom ostyngiad o 12.5% yn nifer y gofalwyr sy'n gadael y gwasanaeth o gymharu â'r 12 mis blaenorol.

### Rheoli perfformiad

Nod Maethu Cymru yw sicrhau monitro a dadansoddi data'n effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Rydym yn defnyddio data i sicrhau y gall gwasanaethau ymateb i'r galw, nodi a mynd i'r afael â gwelliannau ansawdd, ymdrechu i sicrhau canlyniadau rhagorol i blant a theuluoedd a sicrhau darpariaeth gynaliadwy o wasanaethau. Rydym wedi diwygio'r ffordd rydym yn casglu data, gan ddarparu gwybodaeth fwy cyfredol a chywir bob mis.

### Llywodraethiant

Y nod yw sicrhau, datblygu a chynnal y trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer Maethu Cymru er mwyn galluogi cyflawni'r rhaglen waith yn llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd llywodraethu yn cynnwys uwch staff ac Aelodau'r Cyngor a sicrhau bod dulliau effeithiol o ledaenu gwybodaeth ac ymgynghori ar waith ar draws yr holl ALlau. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi a galluogi pob ALl i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cydweithredol trwy ddarparu a chefnogi'r Rheolwyr Datblygiad Rhanbarthol (RhDRh) a Swyddogion Marchnata Rhanbarthol (SMRh) ym mhob rhanbarth.

Trwy ymdrech ar y cyd gan awdurdodau lleol, ac effaith cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae Maethu Cymru wedi gallu dangos cynnydd sylweddol o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth, yn enwedig o ganol y flwyddyn tan ddiwedd y flwyddyn, unwaith y derbyniwyd y buddsoddiad ychwanegol a'i ddefnyddio a'i weithredu yn strwythurau awdurdodau lleol.

Mae'r ymdrech ar y cyd i ddarparu ac adrodd ar y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i Faethu Cymru o wasanaethau maethu ledled Cymru, yn ogystal â nodi tueddiadau a themâu ar lefelau rhanbarthol ac awdurdod lleol.

Daw'r wybodaeth o'r data misol a blynyddol. Mae RhDRh wedi ymgymryd â lefel sylweddol o sicrwydd ansawdd ac wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth ranbarthol. Bydd yr adroddiadau hyn yn hanfodol wrth ddatblygu a darparu rhaglenni gwaith rhanbarthol yn barhaus.

Diolchwn i'r holl awdurdodau lleol a RhDRh am eu hymrwymiad i sicrhau bod yr adroddiad hwn mor gywir ag y gall fod.

# Amdanom ni

Mae Maethu Cymru wedi'i sefydlu gyda'r rolau allweddol canlynol i gyflawni'r rhaglen waith.

### Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru

Mae'r rôl yn goruchwylio datblygiad strategol Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) ac mae'n darparu cyswllt strategol ag ADSS Cymru, AWHOCS a Llywodraeth Cymru i ysgogi gwelliant, cysondeb a chydlynu'r ddwy raglen, trwy ddarpariaeth a gefnogir gan yr awdurdod lleol arweiniol, Cyngor Caerdydd.

### Pennaeth Maethu Cymru

Mae Pennaeth Maethu Cymru yn goruchwylio'r gwaith gweithredol a strategol y mae modd ei gyflawni ar gyfer Maethu Cymru. Yn ogystal ag arwain ar y rhaglen waith, arwain ar ddilyniant ffrydiau gwaith, rheoli'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol a chydlynu'r blaenoriaethau cenedlaethol, maen nhw wedi bod yn canolbwyntio ar gydweithio gyda'r awdurdodau lleol i gyd a chynrychioli Maethu Cymru mewn cyfleoedd cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys ar y teledu a'r radio.

### Tîm Canolog

Mae hyn yn cynnwys capasiti cymorth busnes allweddol gyda Phennaeth Busnes a Galluogi ac Uwch Swyddog Cymorth Busnes a rennir â'r GMC, a Swyddog Cymorth Busnes penodol Maethu Cymru.

### Rheolwr Marchnata Cenedlaethol

Mae'r rôl yn darparu cydlyniad, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth o'r strategaeth farchnata ar gyfer Maethu Cymru. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio ein sefydliadau partner i gydlynu'r gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus a marchnata (Cowshed Communications), darparu gwefannau (Illustrate Digital) a Thalu Fesul Clic / Optimeiddio Peiriannau Chwilio (Liberty). Mae'r Rheolwr Marchnata Cenedlaethol yn cydlynu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r SMRh ac yn goruchwylio cyfleoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol.

### Cydbwyllgor Cenedlaethol

Mae hyn yn cynnwys Cynghorwyr o'r 22 awdurdod lleol sy'n goruchwylio Maethu Cymru [a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol] a phwerau ar y cyd ar gyfer darparu'r swyddogaethau cenedlaethol a chydlynol.

### Penaethiaid Arweiniol Gwasanaethau Plant (LHOCS)

Mae'r grŵp Penaethiaid Arweiniol Gwasanaethau Plant (LHOCS) yn darparu'r llywodraethu gweithredol ar gyfer Maethu Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd LHOCS rheolaidd a goruchwylio'r rhaglen yn strategol yn y chwe rhanbarth gyda'r penaethiaid gwasanaeth eraill yn eu hawdurdodau lleol a staff rhanbarthol.

### Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol (RhDRh)

Mae'r chwe RhDRh yn cydlynu'r rhaglen ranbarthol ar gyfer eu rhanbarthau priodol, gan oruchwylio a hwyluso cyfarfodydd gweithredol a strategol rhanbarthol, gyrru datblygiadau newydd ymlaen trwy ddull cydgynhyrchiol gyda gwasanaethau maethu ALl, yn ogystal â hwyluso a sicrhau ansawdd y data misol a blynyddol.

### Swyddogion Marchnata Rhanbarthol (SMRh)

Mae chwe SMRh yn cydlynu cyfleoedd marchnata ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn eu rhanbarth, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau maethu a chyfathrebu corfforaethol, asesu effaith marchnata a chefnogi gwefannau'r ALlau.

### Swyddogion Recriwtio

Mae'r ddau ar hugain o Swyddogion Recriwtio yn cael eu hariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, trwy Faethu Cymru ac maen nhw'n gweithio fewn eu timau awdurdod lleol priodol. Mae'r Swyddogion Recriwtio'n cydlynu gweithgaredd recriwtio, gan gynnwys digwyddiadau yn y gymuned ac yn ymateb i bob ymholiad cychwynnol gan ddarpar ofalwyr maeth, gan arwain yn ystod gamau cynnar y broses recriwtio.

Yn ogystal, darparwyd 17 swydd arall, sy'n hwyluso cadw a chefnogi gofalwyr maeth, cymorth busnes a chynyddu capasiti asesu o fewn ALlau trwy'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

# cynnydd yn 2023-2024

## Marchnata a Recriwtio

Gyrrodd y Rheolwr Marchnata Cenedlaethol a'r Swyddogion Marchnata Rhanbarthol ffrwd waith marchnata Rhaglen Waith Maethu Cymru ymlaen yn ystod 2023-24, gyda mewnbwn Cowshed Communications, a gomisiynwyd i ddarparu arbenigedd marchnata a chysylltiadau cyhoeddus.




### Ebrill

Cyrhaeddodd taflenni post uniongyrchol stepen drws trigolion gyda biliau treth cyngor i 14 ardal awdurdod lleol. Danfonodd timau eraill Maethu Cymru bost uniongyrchol i dargedu ardaloedd cod post yn eu cymuned.

### Mai

Cynhaliwyd Pythefnos Gofal Maeth gydag ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol Maethu Cymru yn cynnwys amrywiaeth o asedau a datganiadau i'r wasg. Roedd yna sylw ar S4C gyda chyfweliad gyda gofalwr maeth Maethu Cymru. Creodd y gweithgaredd gynnydd mewn ymweliadau a'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol ac mewn ymholiadau.

Roedd Maethu Cymru'n bresennol yn Eisteddfod yr Urdd, yn noddi'r tystysgrifau yn y digwyddiad yn Sir Gaerfyrddin.

### Mehefin

Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys anghenion Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC) yn wythnos ffoaduriaid, 19-25 Mehefin.

Roedd Maethu Cymru'n bresennol gyda stondin yn y brif arddangosfa yn Pride Cymru yng Nghaerdydd.

### Gorffennaf

Dangosodd newyddion ITV Cymru ddarn am UASC, gan gynnwys cyfweliadau gyda ffoadur ifanc, Mark, gofalwr maeth i Faethu Cymru Casnewydd [add name], ac Alastair, Pennaeth Maethu Cymru.

### Awst

Roedd gan Faethu Cymru bresenoldeb mawr yn nigwyddiad yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwynedd, gan gynnwys stondin ar y cyd gyda GMC a phanel trafodaeth yn cynnwys y Dirprwy Weinidog a gofalwyr maeth sy'n gysylltiedig â pholisïau 'Maethu-Gyfeillgar'.

Roedd Maethu Cymru'n bresennol yn y Sioe Frenhinol yn ystod mis Awst.

Lansiwyd deunyddiau codi ymwybyddiaeth, am bolisi 'Dileu Elw (o ofal plant)' Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr maeth.

### Medi

Lansiwyd y cynllun cenedlaethol 'cyfeirio ffrind' a ddarperir trwy'r 'Ap Cyfeillion Gofal'. Mae'r cynllun yn rhoi gwobrau ariannol i ofalwyr maeth sy'n cyfeirio ffrindiau/aelodau o'r teulu, telir pwyntiau yn ystod camau gwahanol proses yr ymgeisydd.

### Hydref

Mis 'plant gofalwyr maeth' oedd hwn, (mis meibion a merched gynt). Cafodd asedau, gan gynnwys lluniau a dyfyniadau, eu rhannu'n genedlaethol a gan ALlau, yn diolch i blant gofalwyr maeth ac yn ategu'r neges y gallwch faethu os oes gennych eich plant eich hun.

Sefydlwyd ein rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Recriwtio newydd Maethu Cymru. Datblygwyd rhaglen gynefino ar eu cyfer, ynghyd â hyfforddiant arfer gorau recriwtio a chanllaw e-lyfr ar gyfer recriwtio.

### Tachwedd a Rhagfyr

Lansiwyd yr ymgyrch '11+' ar 8fed Rhagfyr, a oedd yn cynnwys dadorchuddio murlun, yn cynnwys cerdd, wedi'i hysgrifennu gan grŵp o bobl ifanc â phrofiad o ofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â'r bardd Connor Allen. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o asedau cyfryngau cymdeithasol i ALlau eu rhannu, gan chwalu rhai o'r mythau am faethu pobl yn eu harddegau, ynghyd â sawl blog ar wefannau'r ALlau.

Nod y gerdd oedd mynd i'r afael â chamsyniadau am 'bobl ifanc' mewn gofal ac mae i'w gweld yn Stryd Bracla ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wrth ymyl canol y dref. Cafodd y murlun sylw mewn sawl cyhoeddiad gan gynnwys Children and Young People Now, 'Week in Care' Martin Barrow a chafodd groeso mawr ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Cododd BBC Radio Wales y stori a gwneud cyfweliad am y prosiect ar ei sioe, Drive Time, gydag Alastair, Pennaeth Maethu Cymru.

### Ionawr

Lansiwyd ein hymgyrch hysbysebu newydd gyda'r thema "gall pawb gynnig rhywbeth."

Roedd yn cynnwys tair hysbyseb teledu, ynghyd ag ymgyrchoedd radio a digidol ar draws y cyfryngau cymdeithasol a'r gwefannau. Mae'r rhain yn seiliedig ar straeon a phrofiadau gofalwyr maeth go iawn sy'n cwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd maethu fel lleoliadau brys, grwpiau o frodyr a chwiorydd, UASC, pobl ifanc yn eu harddegau, gofalwyr gwrywaidd sengl, gofalwyr hŷn, gofalwyr mewn gwaith llawn amser, seibiannau byr a'r rôl gwaith cymdeithasol. Ategwyd yr hysbysebion gan astudiaethau achos trwy fideo, yn cynnwys y gofalwyr maeth go iawn yn siarad am sut yr ysbrydolodd eu stori'r hysbysebion. Cododd amryw gyfleoedd yn y cyfryngau am ddim o lansiad yr ymgyrch.

Digwyddiad allweddol yn yr ymgyrch oedd digwyddiad coginio byw gydag enillydd Celebrity Masterchef, Wynne Evans, ym Marchnad Casnewydd. Daeth dros 100 o bobl i'r digwyddiad ac fe'i derbyniwyd yn gadarnhaol iawn, gan gynnwys gan y cyfryngau, gan arwain at sylw ar Newyddion S4C ac ITV gyda darllediad amlwg ar y newyddion 6pm ar 30ain Ionawr.

### Mawrth

Fe wnaethom gefnogi wythnos maethu a mabwysiadu LHDTC+ trwy weithgaredd cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fideo astudiaeth achos gynrychioliadol sy'n gysylltiedig â'r fideo "Carafan" o'r ymgyrch 'gall pawn gynnig rhywbeth'. Cafodd sylw yn y wasg gan Faethu Cymru a'r GMC ei gynnwys yn newyddion Pink – brand cyfryngau LHDTC+.

Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi wyneb yn wyneb cenedlaethol i'r Swyddogion Recriwtio ar 7fed Mawrth a chafwyd croeso cadarnhaol iawn iddo. Roedd 20 o gynrychiolwyr, cyfle i gydweithio a dysgu gan gymheiriaid ledled Cymru yn ogystal â ffocws ar fapio prosesau ac arfer gorau.



Gwellwyd cysylltiadau â'r cyfryngau cenedlaethol, gyda nhw'n cysylltu â Maethu Cymru'n rheolaidd ar gyfer amrywiaeth o gyfweliadau a chyfleoedd yn y cyfryngau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfweliadau ar BBC News, ITV News, S4C, erthyglau yn y wasg a tri ymddangosiad ar BBC Radio Wales.

Cefnogwyd y gweithgaredd marchnata cenedlaethol gan hysbysebion Talu Fesul Clic (PPC) Google i sicrhau bod Maethu Cymru yn cadw ei safle trwy beiriannau chwilio. Ychwanegodd ymgyrchoedd digidol cenedlaethol sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd at y sianeli cenedlaethol presennol. Roedd hefyd ymgyrchoedd digidol rhanbarthol mewn amrywiol ardaloedd targededig o Gymru.

Cwblhawyd nifer o welliannau i'n presenoldeb ar y we;

- Dadansoddiad manwl gan ddefnyddwyr o holl wefannau Maethu Cymru gan arwain at fân adnewyddiadau o'r cyfan ohonynt
- Gwella rhannau newydd o'r gwefannau.

Dangosodd canlyniadau arolwg olrhain brand YouGov gynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth brand o gymharu ag asiantaethau maethu annibynnol cystadleuwyr. Cynyddodd adnabyddiaeth brand Maethu Cymru o 9% (Chw. 2022) i 17% (Ion. 2023), gyda'r agosaf nesaf yn 9%.

## Llwyddiannau Gofalwyr Maeth

### Enillodd Maethu Cymru 6 gwobr Rhagoriaeth Maethu Genedlaethol gan gynnwys y canlynol:

- Cyfraniad rhagorol gan dîm gwaith cymdeithasol – Maethu Cymru Ynys Môn
- Cyfraniad Eithriadol gan ofalwr maeth – Lynne a Steve (Conwy)
- Cyfraniad eithriadol gan ofalwr sy'n berthynas – Chris (CNPT) a Dienw (Ynys Môn)
- Cyfraniad eithriadol gan blant Gofalwyr Maeth – Megan (RhCT)
- Cyfraniad eithriadol gan bobl ifanc – Eleanor (Sir Benfro)











## Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru

Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru yw ein gweledigaeth bod pob gofalwr maeth awdurdod lleol yng Nghymru yn derbyn lefelau cyson o gefnogaeth, gwobrau, cyfleoedd dysgu a manteision ychwanegol. Fe'i lansiwyd yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2021 ac mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio tuag at ei weithredu ledled Cymru.

Mae elfennau allweddol yr Ymrwymiad Cenedlaethol yn cynnwys y canlynol:

- Ymdrechion gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth
- Grwpiau cymorth a chyfleoedd ymgynghori a chyfathrebu
- Ffioedd a Lwfansau
- Cardiau a chynlluniau disgownt
- Siarter gofalwyr maeth
- Mentora a chefnogaeth cymheiriaid
- Dysgu a datblygiad.

Cafodd elfennau newydd eu datblygu a'u hychwanegu yn ystod 2023-24 ochr yn ochr â ffocws parhaus ar sicrhau mwy o gysondeb yn y gwahanol elfennau. Mae'r elfennau newydd yn cynnwys:

- Cynllun cenedlaethol 'Cyfeirio Ffrind'
- e-adnodd dysgu a datblygiad cenedlaethol
- Cyfleoedd hyfforddi cenedlaethol, gan gynnwys arfer gorau gyda honiadau
- Canllawiau a hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau o gylch trosglwyddo gofalwyr maeth i mewn.

## Ymgysylltu a Chydweithio

Un o feysydd allweddol Rhaglen Waith Maethu Cymru yw ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gyda ffocws penodol ar ofalwyr maeth a thimau maethu.

Mae Maethu Cymru wedi parhau i wreiddio ei hun ledled Cymru. Mae timau'n dweud eu bod yn elwa o fod yn rhan o gydweithio cenedlaethol ac yn uniaethu'n fawr â Maethu Cymru. Mae'r cydweithrediad rheolaidd ar draws Cymru wedi cynnwys cyfarfodydd misol parhaus gyda Rheolwyr Tîm, cyfarfod arweinwyr recriwtio pob dau fis, cyfarfod chwarterol arweinwyr dysgu a datblygu, a chyfarfod chwarterol Rheolwyr Gweithredol.

Lansiwyd arolwg blynyddol cyntaf Maethu Cymru ym mis Mai 2023, gan geisio casglu barn holl ofalwyr maeth awdurdodau lleol ynglŷn â sut y mae angen i wasanaethau maethu awdurdodau lleol ddatblygu i'w cefnogi orau.

Cafwyd 455 o ymatebion ledled Cymru gyda'r prif themâu canlynol:

- Roedd 85% yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llwyr/rhywfaint gan y gwasanaeth maethu
- Roedd 62.6% yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan dimau plant
- Roedd y blaenoriaethau ar gyfer yr ymatebwyr fel a ganlyn
  - Ffioedd a lwfansau (68.3% yn gosod hyn yn y 3 blaenoriaeth uchaf)
  - Cymorth cymheiriaid (50.6% a honiadau 43.9%)
  - Roedd 43% eisiau gweld gwybodaeth am blentyn yn cael ei rhannu mewn modd mwy amserol
  - Roedd 13% o Ofalwyr Maeth yn teimlo nad yw safbwyntiau byth yn cael eu hystyried yn y broses cynllunio gofal
  - Mynegwyd rhai pryderon ynghylch cadw staff a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg i ddiwygio'r rhaglen waith ar gyfer Maethu Cymru ymhellach a sicrhau bod y blaenoriaethau a gafodd eu bwydo'n ôl yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Blaenoriaethu gwaith ffoedd a lwfansau
- Parhad yng nghyflwyniad y rhaglen lles maethu a recriwtio arloeswyr
- Cyflwyno hyfforddiant arfer gorau gyda honiadau i ofalwyr maeth a staff.
- Codi ymwybyddiaeth o Siarter GM a'r Ymrwymiad Cenedlaethol
- Cynnal adolygiad o'r fframwaith dysgu a datblygu.




Cynhaliwyd ail Gynhadledd Genedlaethol Maethu Cymru ym mis Medi 2023 yng Nghlwb Pêl-droed Wrecsam. Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad, gyda dros 100 o bobl yn bresennol yn bersonol a 60 arall ar-lein.

Yn ystod y digwyddiad cafwyd cyfraniadau gan Voices From Care Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, sesiwn Holi ac Ateb cyffredinol a chyfweliad ysbrydoledig gyda Rebecca Roberts am ei thaith o ofal i fod yn Fenyw Gryfaf y Byd.

Roedd mannau gwybodaeth ar gael i ofalwyr maeth bori a derbyn cyngor neu wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynllun cenedlaethol 'Cyfeirio Ffrind'
- e-lyfr Dysgu a Datblygu Meithrin Cymru
- Ardal Lles/Hunanofal
- Ymgynghoriad ar 'Croeso Mawr', gwefan proffliau gofalwyr maeth
- Y Rhwydwaith Maethu
- Voices From Care Cymru
- Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) a Tros Gynnal Plant Cymru (TCP) (darparwr eiriolaeth)
- Gofalwyr Arloesi wedi cofrestru ar gyfer y Rhaglen Lles y Rhwydwaith Maethu
- Ymgynghoriad ar ffoedd a lwfansau
- Marchnata Maethu Cymru

Mae Maethu Cymru wedi cadw cysylltiadau cryf â Voices From Care Cymru drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys mynychu nifer o'u digwyddiadau a'u grwpiau cynghori, i glywed barn plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a hyrwyddo gwaith Maethu Cymru.

## Llywodraethiant a Strwythur

Mae'r seilwaith cenedlaethol wedi parhau i ymwreiddio a chefnogi'r arweinyddiaeth genedlaethol a swyddogaethau cydlynu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys rheoli llywodraethu, comisiynu a rheoli contractau cenedlaethol ynghyd â rheolaeth ariannol a grantiau. Sefydlwyd y Cydbwyllgor cenedlaethol newydd, sy'n rhoi trosolwg i bob awdurdod lleol o Faethu Cymru a (NAS), a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn gynnar ym mis Ebrill 2024.

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant o'r Awdurdodau Lleol arweiniol ar gyfer pob rhanbarth yn darparu llywodraethiant gweithredol a strategol drwy'r cyfarfod Penaethiaid Arweiniol Gwasanaethau Plant (LHOCS). Parhaodd y cyn Grŵp Rheoli Busnes Fframwaith Maethu Cenedlaethol (Gweithredol), sy'n cynnwys ADSS Cymru a CLlLC, i gwrdd ar sail ad-hoc nes i'r Cyd-bwyllgor newydd gael ei sefydlu.

# gwybodaeth perfformiad

# defnydd lleoliad

1

## Pob Lleoliad

**Nodyn:** daw'r data hwn o ffurflenni awdurdodau lleol ar gyfer Maethu Cymru. Gall amrywio o gymharu â ffynonellau data eraill oherwydd gwahaniaethau mewn diffiniadau a charfannau o blant sy'n cael eu cyfrif.

### Defnydd Statig

Ar **7,087**, roedd lefel gyffredinol y Plant sy'n Derbyn Gofal ym mhob lleoliad wedi gostwng 1.3% (n94) ar 31.03.24. Mae'r ffigurau'n dangos y newidiadau canlynol:

- Gofal maeth yw'r math amlycaf o leoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda 68.6% o blant wedi'u lleoli, ychydig yn is na'r ddwy flynedd ddiwethaf.
- Ar 10.6%, mae cyfran y plant sy'n cael eu gosod mewn gofal preswyl yn dangos y twf mwyaf arwyddocaol dros yr un cyfnod.
- Cafodd y rhan fwyaf o blant, 65.6%, eu lleol o fewn ardal eu hawdurdod lleol eu hunain, cynnydd bach ers y llynedd.
- Mae nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru wedi cynyddu i 7.8% tra bod y nifer sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, wedi gostwng ychydig erbyn hyn i 26.6%.

### Man Lleoliad

- Cafodd 68.5% o blant eu lleoli yn ardal eu hawdurdod lleol eu hunain, cynnydd o 3% ers y llynedd.
- Cafodd 22.8% o blant eu lleoli yng Nghymru, ond y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol, cynnydd o 4.5% ers y llynedd.
- Cafodd 8.6% eu lleoli y tu allan i Gymru (n269), cynnydd o 1.5% ers y llynedd.

### Pob Lleoliad Newydd

Cyfanswm nifer y lleoliadau newydd a reoleiddir yn ystod y flwyddyn ariannol 23/24 oedd **3,223**, gostyngiad o 722 o leoliadau, neu 18%, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau cyffredinol yn dangos y canlynol:

- Yn gyffredinol, cynyddodd lleoliadau preswyl newydd **12%** (n79) ers y llynedd.

### Proffl Oedran

- Roedd dros hanner yr holl leoliadau newydd a wnaed, 52.9%, i blant 11+ oed.
  - Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant yr oedran hwn sy'n cael eu lleoli ers 20/21 pan oedd hyn yn 43.8%, sy'n dangos bod angen cynyddol a pharhaus i leoli plant hŷn.
- Ar 29.2%, roedd llai o leoliadau newydd a wnaed ar gyfer plant 0-4 oed. Mae hyn yn gynnydd bach ers y llynedd ond yn ostyngiad sylweddol o 35.9% yn 2020/21.
- Gostyngodd cyfran y lleoliadau newydd a wnaed ar gyfer plant 5-10 oed, i 19% yn 2023/24, o 20.8% y flwyddyn flaenorol.



## Defnydd Lleoliad Statig

Ar 31ain Mawrth 2024, roedd cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn **7,087**, gostyngiad o 7181 o fis Mawrth 2023 ac ychydig yn uwch na ffgwr Mawrth 2022.

Roedd 550 o blant yn byw y tu allan i Gymru ar 31.3.24; cynnydd o 543 o blant, neu 1.3%, o'i gymharu â'r llynedd. O'r plant sy'n byw y tu allan i Gymru, roedd **21.5%** gyda gofalwyr person cysylltiedig, 21% yn byw mewn lleoliadau preswyl, **22%** mewn trefniadau 'eraill ', **22%** mewn darpariaeth faethu annibynnol (3ydd Sector a masnachol) a **4%** mewn lleoliadau maethu awdurdodau lleol.

Mae canran y plant sy'n mynd i mewn i bob math o leoliad wedi aros yn weddol sefydlog ers y llynedd, gyda gostyngiad bach mewn lleoliadau maethu prif ffrwd a chynnydd bach mewn lleoliadau maethu personau cysylltiedig. Roedd gostyngiad bach hefyd mewn lleoliadau maethu prif ffrwd awdurdodau lleol a phlant wedi'u lleoli gyda darparwyr maethu masnachol. Roedd cynnydd sylweddol o tua 12% i nifer y plant a osodwyd mewn lleoliadau preswyl, tueddiad sy'n parhau ar ben cynnydd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd o 8.6% mewn lleoliadau preswyl allanol a 36% mewn lleoliadau preswyl ALL.

## Defnydd o leoliad newydd

Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoliadau newydd a wnaed o gymharu â llynedd, gyda gostyngiadau ar draws pob math o leoliadau ar wahân i leoliadau Rheoliad 26, lleoliadau rhyng-awdurdod gydag awdurdodau lleol eraill a rhai preswyl mewnol (ALL eu hunain) a gododd 4.3%.

Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y lleoliadau newydd gyda phobl gysylltiedig, er y gellir priodoli hyn i'r cynnydd mewn lleoliadau Rheoliad 26 dros y 12 mis diwethaf.

# Lleoliadau Maethu

## Defnydd statig

- Parhaodd cyfran y plant a osodwyd mewn lleoliadau personau cysylltiedig i dyfu i 23.6% (n1,670) yn 2023/24.
- Roedd gostyngiad bach i 27.5% (n1,947) mewn plant a roddwyd mewn gofal maeth prif ffrwd ALl.
- Arhosodd cyfran y plant a leolwyd gydag asiantaethau maethu 3ydd sector yr un fath ar 2.1% (n146) tra bod y rhai ag asiantaethau maethu masnachol wedi gostwng ychydig i 15.5% (n1,102).
- Roedd plant a leolwyd yn narpariaeth maethu awdurdodau lleol yn 74.3% (n3,617) ar 31.03.24, o gymharu â 74.2% (n3,694) y flwyddyn flaenorol.

## Man Lleoliadau

- O'r lleoliadau gofal maeth newydd a wnaed, roedd **84%** a wnaed o fewn darpariaeth awdurdod lleol y plentyn yn ardal awdurdod lleol y plentyn ei hun, o'i gymharu â **41%** o leoliadau newydd a wnaed gyda darparwyr maethu masnachol a'r trydydd sector.

## Lleoliadau maethu newydd

- Gostyngodd lleoliadau newydd a wnaed gyda Gofalwyr Maeth Prif ffrwd Awdurdod Lleol **eu hunain** 15% (n258) i 1,420 a gyda Gofalwyr Maeth Prif ffrwd Awdurdodau Lleol **Eraill** o 1 lleoliad i 19.
- Gostyngodd lleoliadau newydd a wnaed gyda Gofalwyr Maeth darparwyr **Masnachol** Annibynnol **10%** (n59) i **533** a chynyddon nhw gyda Gofalwyr Maeth darparwyr T**rydydd Sector** Annibynnol 7.5% (n5) i **70**.
- Cynyddodd lleoliadau newydd a wnaed gyda Gofalwyr Maeth **Person Cysylltiedig** a **rheoliad 26** 2.5% (n20) i **840**.

## Proffl Oedran

- Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau maethu newydd a wneir ar gyfer plant dros 11 oed, ac mae'r nifer hwn wedi cynyddu'n sylweddol dros y 24 mis diwethaf.
- Gostyngodd cyfran y plant 11+ oed sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol i 34.9% (n491) eleni o 37.9% (n637) y flwyddyn flaenorol.
- Gostyngodd cyfran y plant 11+ oed sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth masnachol i 45.2% (n241) eleni o 46.2% (n274) y llynedd.



### Lleoliadau Maethu

Parhaodd nifer y plant ym mhob math o leoliadau maethu yn weddol sefydlog o'i gymharu â'r llynedd, ar wahân i'r twf parhaus mewn gofal maeth pobl gysylltiedig. Y gostyngiad cyffredinol sylweddol mewn lleoliadau newydd a wnaed, sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn lleoliadau gofal preswyl, oedd y prif reswm dros ostyngiad mewn lleoliadau maethu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn mewn defnydd preswyl yn dangos yr angen i recriwtio gofalwyr i ofalu am blant hŷn sydd ag anghenion mwy cymhleth ac i ddarparu'r capasiti angenrheidiol fel nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl pan fyddai aelwyd faethu'n fwy priodol ar gyfer eu hanghenion.


Fodd bynnag, er mwyn galluogi amrywiaeth eang o leoliadau yn y sector, byddai cymeradwyaeth ar draws yr ystod eang o 0 – 18 oed yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ateb y galw a darparu dewis wrth baru. Byddai hyn hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu pellach i ofalwyr maeth presennol gynyddu eu hyder a'u parodrwydd i ystyried newid eu dewis oedran.

Mae cyfran y plant 0-4 oed sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth masnachol hefyd wedi cynyddu i 25.9% (n,156) eleni o 17.5% (n,115). Mae'r cynnydd hwn mewn lleoliadau allanol ar gyfer plant 0-4 oed yn dangos y gallai fod angen recriwtio ac ehangu dewisiadau gofalwyr maeth i ofalu am blant iau.

# lleoliadau sefydlog

## Pob Lleoliad

Mae'r defnydd o leoliadau sefydlog yn adlewyrchu'r lleoliadau a ddarperir ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol ar gyfer pob cyfnod.




### Defnydd Sefydlog ar 31.03.24

| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | GM Pobl Gysylltie-dig | Gofalwr Pobl Gysylltie-dig a26 | Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl eu hun) | GHG | 'Eraill' | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 20 | 2 | 108 | 10 | 11 | 111 | 262 | 155 | 0 | 11 | 122 | 550 |
| Yng Nghymru | 266 | 20 | 211 | 59 | 84 | 647 | 1,277 | 346 | 1 | 12 | 252 | 1,888 |
| O fewn yr ALl | 1,649 | 0 | 1,019 | 263 | 51 | 344 | 3,326 | 144 | 104 | 36 | 1,039 | 4,649 |
| **Cyfanswm** | **1,935** | **12** | **1,338** | **332** | **146** | **1,102** | **4,865** | **645** | **105** | **59** | **1,413** | **7,087** |

### Defnydd Sefydlog ar 31.03.23


| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Pobl Gysylltie-dig | Gofalwr Pobl Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Eraill' | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 21 | 2 | 114 | 21 | 6 | 131 | 295 | 115 | 3 | 130 | 543 |
| Yng Nghymru | 293 | 10 | 228 | 33 | 102 | 660 | 1,326 | 370 | 1 | 272 | 1,969 |
| O fewn yr ALl | 1,692 | 3 | 1,041 | 236 | 44 | 343 | 3,359 | 109 | 73 | 1,128 | 4,669 |
| **Cyfanswm** | **2,006** | **15** | **1,383** | **290** | **152** | **1,134** | **4,980** | **594** | **77** | **1,530** | **7,181** |

### Defnydd Sefydlog ar 31.03.22

| | GM ALl ei Hun | GM ALl Arall | GM Pobl Gysylltie-dig | Gofalwr Pobl Cysylltie-dig a26 | GM Trydydd Sector | GM Masn-achol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl ei hun) | 'Eraill' | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 24 | 0 | 103 | 14 | 1 | 74 | 216 | 105 | 0 | 99 | 420 |
| Yng Nghymru | 301 | 13 | 250 | 38 | 78 | 719 | 1,399 | 292 | 1 | 268 | 1,960 |
| O fewn yr ALl | 1,697 | 1 | 992 | 210 | 47 | 380 | 3,327 | 98 | 74 | 1,181 | 4,680 |
| **Cyfanswm** | **2,022** | **14** | **1,345** | **262** | **126** | **1,173** | **4,942** | **495** | **75** | **1,548** | **7,060** |

## Lleoliadau Newydd

Mae'r data hwn yn casglu'r lleoliadau newydd a wnaed dros y flwyddyn ariannol, gan gynnwys rhai newydd i ofal a newid lleoliadau drwy gydol y flwyddyn. Bwriad y data hwn yw meithrin gwell dealltwriaeth o'r lleoliadau a ddefnyddir ac adeiladu ar ddadansoddiad o anghenion recriwtio.





**Defnydd Statig – Lleoliadau Newydd**

| | 2023-24 | | 2022-23 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwr ALl | 1947 | 35% | 2031 | 36% | 2036 | 37% |
| Unigolyn Cysylltiedig | 1338 | 24% | 1383 | 24% | 1345 | 24% |
| Rheoliad 26 | 332 | 6% | 290 | 5% | 262 | 5% |
| 3ydd Sector | 146 | 2% | 152 | 3% | 126 | 3% |
| Masnachol | 1102 | 20% | 1134 | 20% | 1173 | 21% |
| Preswyl | 750 | 13% | 671 | 12% | 570 | 10% |
| **Cyfanswm** | **5,615** | | **5,661** | | **5,512** | |

## Proffl oedran y plant

Mae'r siart isod yn dangos proffl oedran plant yng Nghymru, yn ôl y math o leoliad y gofynnwyd amdano ar 31ain Mawrth 2024.




### Proffl oedran lleoliadau newydd 2023-24

| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysyll-tiedig | Gofalwyr cysyll-tiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masn-achol | Pob Trefniad Rhieni a Phlant | Preswyl | GHG | Pob lleoliad newydd arall | Cyfan-swm Lleoliadau a wnaed | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 – 4 yrs | 601 | 8 | 124 | 185 | 21 | 135 | 129 | 4 | 2 | 347 | 1,556 | 29.2% |
| 5 – 10 yrs | 328 | 2 | 86 | 146 | 20 | 157 | 10 | 71 | 16 | 120 | 956 | 17.9% |
| 11+ yrs | 491 | 9 | 134 | 165 | 29 | 241 | 25 | 534 | 194 | 1,000 | 2,822 | 52.9% |
| **Cyfanswm** | **1,420** | **19** | **344** | **496** | **70** | **533** | **164** | **609** | **212** | **1,467** | **5,334** | |

### Proffl oedran lleoliadau newydd 2022-23


| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysyll-tiedig | Gofalwyr cysyll-tiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masn-achol | Pob Tref-niad Rhieni a Phlant | Preswyl | Pob lleoliad newydd arall | Cyfan-swm Lleoliadau a wnaed | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 – 4 yrs | 659 | 9 | 136 | 169 | 8 | 107 | 165 | 32 | 318 | 1,603 | 29% |
| 5 – 10 yrs | 382 | 4 | 76 | 141 | 31 | 211 | 0 | 68 | 215 | 1,148 | 20.8% |
| 11+ yrs | 637 | 7 | 131 | 167 | 26 | 274 | 6 | 569 | 949 | 2,769 | 50.2% |
| **Cyfanswm** | **1,678** | **20** | **343** | **477** | **65** | **592** | **168** | **661** | **1,482** | **5,520** | |


### Proffl oedran lleoliadau newydd 2021-22


| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysyll-tiedig | Gofalwyr cysyll-tiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masn-achol | Pob Tref-niad Rhieni a Phlant | Preswyl | Pob lleoliad newydd arall | Cyfan-swm Lleoliadau a wnaed | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 – 4 yrs | 501 | 9 | 153 | 175 | 5 | 98 | 116 | 16 | 410 | 1,483 | 30.9% |
| 5 – 10 yrs | 327 | 2 | 107 | 145 | 18 | 160 | 0 | 46 | 136 | 941 | 19.6% |
| 11+ yrs | 606 | 5 | 119 | 160 | 21 | 247 | 8 | 469 | 744 | 2,379 | 49.5% |
| **Cyfanswm** | **1,434** | **16** | **379** | **480** | **44** | **505** | **124** | **531** | **1,290** | **4,803** | |

**01** Defnydd Lleoliad

# Lleoliad




### Lleoliad lleoliadau newydd 1af Ebrill 2020 – 31ain Mawrth 2024

| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysylltiedig | Gofalwyr cysylltiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masnachol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl eich hun) | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 71 | 4 | 18 | 29 | 9 | 46 | 177 | 90 | 2 | 269 |
| Yng Nghymru | 134 | 20 | 45 | 74 | 27 | 204 | 504 | 201 | 12 | 717 |
| O fewn yr ALl | 1,075 | 10 | 280 | 363 | 17 | 185 | 1,930 | 110 | 106 | 2,146 |
| Rhiant a phlentyn | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 45 | 45 | 1 | 91 |
| **Cyfanswm** | **1,300** | **34** | **343** | **466** | **53** | **460** | **2,656** | **446** | **121** | **3,223** |

### Lleoliad lleoliadau newydd 1af Ebrill 2022 – 31ain Mawrth 2023

| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysylltiedig | Gofalwyr cysylltiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masnachol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl eich hun) | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 7 | 2 | 23 | 22 | 5 | 83 | 142 | 135 | 0 | 277 |
| Yng Nghymru | 257 | 15 | 56 | 63 | 49 | 355 | 795 | 286 | 4 | 1,085 |
| O fewn yr ALl | 1,384 | 3 | 275 | 376 | 10 | 140 | 2,188 | 115 | 112 | 2,415 |
| Rhiant a phlentyn | 36 | 0 | 0 | 0 | 7 | 40 | 83 | 85 | 0 | 168 |
| **Cyfanswm** | **1,684** | **20** | **354** | **461** | **71** | **618** | **3,208** | **621** | **116** | **3,945** |


### Lleoliad lleoliadau newydd 1af Ebrill 2021 – 31ain Mawrth 2022

| | GM ALl Ei Hun | GM ALl arall | Pobl Gysylltiedig | Gofalwyr cysylltiedig a26 DGCaLL | GM 3ydd Sector | GM Masnachol | Cyfanswm PMG a faethwyd | Preswyl (allanol) | Preswyl (ALl eich hun) | Cyfanswm PMG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu Allan i Gymru | 13 | 0 | 35 | 18 | 0 | 44 | 110 | 86 | 0 | 302 |
| Yng Nghymru | 206 | 15 | 79 | 88 | 26 | 322 | 736 | 251 | 0 | 1,278 |
| O fewn yr ALl | 1,199 | 1 | 279 | 368 | 8 | 161 | 2,016 | 76 | 111 | 3,085 |
| Rhiant a phlentyn | 36 | 0 | 1 | 0 | 2 | 51 | 90 | 25 | 0 | 115 |
| **Cyfanswm** | **1,454** | **16** | **394** | **474** | **36** | **578** | **2,954** | **438** | **111** | **3,501** |

## Lleoliadau maethu ALl Ar Gael

### Negeseuon allweddol:

- Gostyngodd cyfanswm lleoliadau maeth yr Awdurdod Lleol prif ffrwd cymeradwy 3.9% i **2,574**
  - Meddiannwyd **81.6%** (n1941) o leoliadau, cynnydd ar 79% y llynedd gyda bron pob lleoliad yn cael ei feddiannu gan blant o'r ALl cartref.
  - Roedd **5.7%** (n136) o leoliadau gwag ar gael i'w defnyddio. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o 78 lleoliad o 8.6% (n214) y llynedd.
  - Dim ond 1 lle i rieni a phlant oedd ar gael, o gymharu â **6** y flwyddyn flaenorol. Mae cyfanswm lleoliadau rhieni a phlant wedi gostwng o 22 i 13 ar draws Cymru.
  - Cafodd **0.8%** (n20) o leoliadau eu meddiannu gan blant o ALlau eraill, cynnydd bach ers y llynedd.
  - Nid oedd y **11.9%** o leoliadau gwag oedd yn weddill ar gael i'w defnyddio.
  - Roedd gostyngiad o 1 lleoliad seibiant i **195**.




### Lleoliadau Maeth Ar Gael

| **Ar 31.03.24** | Nifer y lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant yn eu ALl eu hunain | Nifer y Lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant ALlau eraill | Nifer y Lleoliadau gwag sydd ar gael | Nifer y Lleoliadau gwag nad ydynt ar gael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor Byr Prif Ffrwd | 925 | 10 | 96 | 149 | 1,180 |
| Tymor Hir Prif Ffrwd | 1,011 | 10 | 39 | 126 | 1,186 |
| Rhiant a phlentyn | 5 | 0 | 1 | 7 | 13 |
| Cyfanswm | **1941** | **20** | **136** | **282** | **2379** |
| Canran Rhaniad | **81.6%** | **0.8%** | **5.7%** | **11.9%** | |
| Seibiant | 36 | 1 | 127 | 31 | 195 |
| Cyfanswm Lleoliadau | 1977 | 21 | 263 | 313 | 2574 |

### Lleoliadau Maeth Ar Gael

| **Ar 31.03.23** | Nifer y lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant yn eu ALl eu hunain | Nifer y Lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant ALlau eraill | Nifer y Lleoliadau gwag sydd ar gael | Nifer y Lleoliadau gwag nad ydynt ar gael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor Byr Prif Ffrwd | 1,060 | 5 | 161 | 199 | 1,425 |
| Tymor Hir Prif Ffrwd | 892 | 9 | 47 | 89 | 1,037 |
| Rhiant a phlentyn | 10 | 0 | 6 | 6 | 22 |
| Cyfanswm | **1962** | **14** | **214** | **294** | **2484** |
| % Rhaniad | **79%** | **0.6%** | **8.6%** | **11.8%** | |
| Seibiant | 42 | 0 | 93 | 59 | 194 |
| Cyfanswm Lleoliadau | 2004 | 14 | 307 | 353 | 2678 |

### Lleoliadau Maeth Ar Gael

| **Ar 31.03.22** | Nifer y lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant yn eu ALl eu hunain | Nifer y Lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant ALlau eraill | Nifer y Lleoliadau gwag sydd ar gael | Nifer y Lleoliadau gwag nad ydynt ar gael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor Byr Prif Ffrwd | 907 | 10 | 135 | 166 | 1,218 |
| Tymor Hir Prif Ffrwd | 909 | 6 | 31 | 155 | 1,101 |
| Rhiant a phlentyn | 12 | 0 | 2 | 4 | 18 |
| Cyfanswm | **1828** | **16** | **168** | **325** | **2337** |
| % Rhaniad | **78.2%** | **0.7%** | **7.2%** | **13.9%** | |
| Seibiant | 87 | 1 | 84 | 34 | 206 |
| Cyfanswm Lleoliadau | 1915 | 17 | 252 | 359 | 2543 |

### Canfyddiadau

Bu gostyngiad bach o 3.9% yn nifer y lleoliadau gofal maeth ALl eleni, gan ddod â'r cyfanswm i 2,574..

Gostyngodd lefel y lleoedd gwag cymeradwy a oedd ar gael i 5.7% o 8.6% y llynedd. Yn y cyfamser, cynyddodd lefel y lleoliadau a ddefnyddiwyd gan blant yr ALl ei hun i 81.6% o 79%; Mae cynnydd wedi bod yn hyn dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae nifer y lleoliadau rhieni a phlant a ddefnyddir wedi gostwng, ac mae nifer y lleoliadau hyn sydd ar gael hefyd wedi gostwng. Mae'r data yn gynharach yn yr adroddiad yn dangos bod angen datblygu'r math hwn o ddarpariaeth faethu gydag ALlau; Gwnaed 20 o leoliadau gydag asiantaethau maethu annibynnol a 45 mewn lleoliadau preswyl.


Mae cyfraddau lleoliadau gwag yn parhau i amrywio'n sylweddol ar draws pob awdurdod lleol, gyda'r gyfradd isaf o leoliadau gwag sydd ar gael yn 0.7% a'r uchaf yn 17%.


Dylai gwasanaethau ystyried a ellid cryfhau peirianwaith i wneud y defnydd gorau o leoliadau i blant rhwng awdurdodau. Mae nifer y lleoliadau rhwng awdurdodau wedi gostwng ychydig ac yn parhau'n is nag y byddem yn disgwyl eu gweld gyda'r lleoedd gwag sy'n cael eu hadrodd. Argymhellir bod systemau a phrosesau monitro cadarn ar waith i sicrhau bod darpariaeth faethu'r ALlau cyfagos yn cael ei harchwilio cyn cychwyn unrhyw broses chwilio am leoliadau ehangach.


## Terfyniadau heb eu Cynllunio – Plant sy'n Derbyn Gofal Maeth

### Negeseuon allweddol:

- Gostyngodd nifer y plant a welodd eu lleoliad yn dod i ben mewn ffordd heb ei chynllunio i 10.4% (n508); Roedd hyn yn ostyngiad o 12.4% (n619) y llynedd.
- Ar draws pob plentyn a faethir yn narpariaeth awdurdodau lleol (prif ffrwd a phobl gysylltiedig) y gyfradd oedd 8.9% (n323).
- Mae hyn yn cymharu â 11.7% (n129) mewn darpariaeth faethu fasnachol a 6.8% (n10) mewn darpariaeth trydydd sector.




**Terfyniadau heb eu Cynllunio**

| | | Wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol | Wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol eraill | Wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth cysylltiedig | Wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth darparwyr trydydd sector annibynnol | Wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth darparwr masnachol annibynnol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023-24** | Nifer | 260 | 1 | 62 | 10 | 129 | 508 |
| | Canran | 13.4% | 8.3% | 4.6% | 6.8% | 11.7% | 10.4% |
| **2022-23** | Nifer | 361 | 5 | 84 | 17 | 152 | 619 |
| | Canran | 18% | 33% | 5% | 11.2% | 13.4% | 12.4% |
| **2021-22** | Nifer | 243 | 5 | 68 | 6 | 134 | 449 |
| | Canran | 12% | 35% | 4.3% | 4.8% | 11.4% | 9.1% |

### Canfyddiadau

Gostyngodd nifer y plant a welodd eu lleoliad yn dod i ben mewn ffordd heb ei chynllunio yn ystod 2023/24.

Y gostyngiad mwyaf oedd mewn lleoliadau maethu prif ffrwd awdurdodau lleol a ostyngodd o 18% (n361) i 13.4% (n260) er, pan gyfunir data'r bobl gysylltiedig, mae hyn yn gostwng i 8.9% (n322).

Gostyngodd y cyfraddau hefyd yn yr asiantaethau maethu 3ydd sector a masnachol i 6.8% (n10) a 11.7% (n129) yn eu tro.

Mae sefydlogrwydd lleoliad yn parhau i fod yn ffactor allweddol i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a dylid monitro hyn yn agos.

# recriwtio a chadw prif ffrwd


2

## Recriwtio

**Negeseuon allweddol:**

- Yn 2023/24 gwelwyd cynnydd mewn ymholiadau a chymeradwyaethau gofalwyr maeth prif ffrwd, y flwyddyn gyntaf mewn 5 mlynedd i hyn ddigwydd.
- Mae'r gostyngiad mewn ymweliadau cychwynnol dros y 5 mlynedd diwethaf hefyd wedi arafu'n sylweddol ac wedi sefyll ar lefel debyg i'r llynedd.
- Mae yna gynnydd bach calonogol mewn ymholiadau gan bobl sy'n newydd i faethu a'r rhai sydd wedi maethu o'r blaen; Mae hyn yn gwrthdroi tueddiadau blaenorol, gan ddangos bod maethu gyda'r Awdurdod Lleol yn dod yn fwy deniadol.
- Cynyddodd cyfanswm yr ymholiadau i faethu 19.2% (n277) yn 2023/24 i **1,721**.
- Cafodd **126** o aelwydydd eu cymeradwyo, cynnydd o 11.5% (n13) ers y llynedd. Roedd hyn yn adlewyrchu cyfradd trosi o 7.3%.
- **124** o leoliadau newydd ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys **88** o leoliadau tymor byr, **35** o leoliadau seibiant ac 1 lleoliad rhiant a phlentyn.

**Recriwtio Gofalwyr Maeth Cyffredinol**




| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Ymholiadau | 1721 | 1444 | 1483 |
| Ymweliadau cartref / asesiadau a gynhaliwydd | 413 | 422 | 489 |
| Asesiadau maethu wedi'u dyrannu | 230 | 206 | 263 |
| Cymeradwyaethau a wnaed | 126 | 113 | 169 |
| Cyfradd trosi Cymeradwyaethau % | 7.3% | 7.8% | 11.4% |

### Canfyddiadau

Parhaodd y cynnydd o ran cynyddu ymholiadau cychwynnol a gafwyd yn 2022/23 yn 2023/24, gyda chynnydd pellach mewn ymholiadau cychwynnol o 19.2% o gymharu â 2022/23. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn 5 allan o'r 6 rhanbarth yn amrywio o 3.9% i 57%. Mae hyn yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer yr ymholiadau dros y 7 mlynedd diwethaf sy'n dangos newid sylweddol.

Er bod gostyngiad bach o 2.1% mewn ymweliadau cychwynnol, roedd cynnydd sylweddol yn Ch4 wrth i'r adnoddau ychwanegol gael eu hymwreiddio yn yr ALlau. Gwelodd 4 rhanbarth gynnydd ar y flwyddyn flaenorol, yn amrywio o 7.6% i 33%. Roedd y nifer fawr o ymholiadau'n golygu bod trosi i ymweliad cychwynnol wedi gostwng i 24%; Mae yna uchelgais tymor hirach i gynyddu hyn i 33%.


Mae cyfran yr achosion o ymweliadau cychwynnol a oedwyd oherwydd capasiti'r gwasanaeth wedi cynyddu ychydig i 6.8% ac mae cyfran yr ymweliadau cychwynnol sy'n cael eu cau wedi aros yn sefydlog ar 23%. Mae hyn yn ein helpu i gyfrif cyfraddau gadael posibl.

Cafodd 230 o asesiadau eu dyrannu, cynnydd o 28 ar y flwyddyn flaenorol, gyda 60 yn cael eu cau cyn eu cwblhau. Mae hyn yn dangos lefel uwch o drosi o'r ymweliad cychwynnol i'r dyraniad nag yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y dyraniadau ym mhob un o 3 chwarter olaf y flwyddyn.

Gostyngodd y gyfradd trosi o ddyraniad i gymeradwyaeth ychydig i 54.8%. Fodd bynnag, cymeradwywyd 13 yn fwy o ofalwyr maeth nag yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 11.5%. Cwblhawyd 68% o'r asesiadau hyn o fewn 6 mis, o gymharu â 57% y llynedd.

Mae monitro misol ac adrodd chwarterol ar ddata recriwtio yn parhau, trwy'r teclyn casglu data DPA misol. Y gobaith yw y bydd y monitro data hwn, yn ogystal â datblygu hyfforddiant arfer gorau recriwtio, ymwreiddio gwell arfer recriwtio ar draws gwasanaethau a'r gweithgaredd marchnata a ddarperir trwy Faethu Cymru, yn ein cynorthwyo i gynyddu ymholiadau yn ogystal â chwilio am ffyrdd i barhau i wella'r cyfraddau trosi o ymholiad i gymeradwyaeth.

**Ymholiadau**




| | Aelwydydd nad ydynt wedi maethu o'r blaen | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen drwy ALlau eraill prif ffrwd | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen drwy sefydliadau'r trydydd sector | Aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen drwy sefydliadau masnachol annibynnol |
|---|---|---|---|---|
| **2023/24** | 1612 | 26 | 24 | 59 |
| **2022/23** | 1425 | 37 | 5 | 57 |
| **2021/22** | 1411 | 32 | 9 | 22 |

## Canfyddiadau


Cynyddodd nifer yr ymholiadau gan aelwydydd sydd wedi maethu o'r blaen o 10 ar ben y flwyddyn flaenorol ac ymholiadau gan aelwydydd nad ydynt wedi maethu o'r blaen 187. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod maethu trwy ALlau yn ddeniadol i lawer o bobl sydd wedi maethu o'r blaen a bod mwy o bobl yn ceisio maethu awdurdod lleol fel eu cam cyntaf. Yn 23/24 roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a oedd â diddordeb mewn trosglwyddo i'w hawdurdod lleol o sefydliadau trydydd sector.

# Cadw

### Negeseuon allweddol:

- Gwellodd cadw gofalwyr maeth eto yn 2023/24.
- Roedd gofalwyr maeth yn gadael y gwasanaeth ar y lefel isaf a gofnodwyd erioed, gyda 12.5% (n23) yn llai na'r llynedd yn gadael.
- Collwyd 5% (n11) yn llai o leoliadau o gymharu â'r llynedd.
- Ar ddiwedd blwyddyn 2024 adroddwyd am golled net o **35 o aelwydydd** a cholled net o **58 o leoliadau**.
- Y prif reswm dros adael y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd gwasanaeth hir.
- Roedd 96 o'r 126 o gymeradwyaethau a ddaeth i ben oherwydd amgylchiadau naturiol (gwasanaeth hir, salwch, amgylchiadau teuluol, perthynas yn chwalu neu adleoli).

### Ennill a Cholli Gofalwyr Cymru Gyfan





| | 2023-24 | | 2022-23 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau |
| Nifer a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 126 | 144 | 115 | 124 | 169 | 201 |
| Nifer a adawodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn | 161 | 202 | 184 | 213 | 206 | 304 |
| Ennill / Colli Net | -35 | -58 | -69 | -89 | -37 | -103 |

### Canfyddiadau

Roedd gostyngiad yn y terfyniadau cymeradwyo sy'n dangos bod awdurdodau lleol yn cadw mwy o ofalwyr maeth. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr sy'n gorffen oherwydd gwasanaeth hir, gyda llai o ofalwyr yn trosglwyddo i ddarparwyr maethu masnachol (er elw) a darparwyr nid er elw. Mae hyn yn dangos bod mwy wedi dewis aros gyda'u hawdurdodau lleol. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y gofalwyr maeth sy'n gadael oherwydd pryderon, cwynion neu honiadau.

**02** Recriwtio a Chadw Prif Ffrwd




### Rheswm dros fod Gofalwyr Prif Ffrwd yn gadael y gwasanaeth

| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth hir | 45 | 35 | 51 |
| Salwch / Profedigaeth/ Perthynas yn chwalu / Adleoli | 29 | 40 | 38 |
| Newid Gyrfa | 25 | 38 | 40 |
| Trosglwyddo i ALl arall | 2 | 1 | 2 |
| Trosglwyddo i sefydliad 3ydd sector | 2 | 2 | 5 |
| Trosglwyddo i sefydliad y sector masnachol | 1 | 2 | 8 |
| Trefniant PRB / llety â chymorth | 9 | 11 | 12 |
| Gorchymyn Gwarcheidaeth Arbennig wedi ei wneud | 9 | 13 | 2 |
| Gorchymyn Mabwysiadu wedi ei wneud | 4 | 4 | 4 |
| Pryderon / cwynion / honiadau | 11 | 16 | 17 |
| Plentyn wedi dychwelyd adref | 0 | 4 | 2 |
| Nid oedd maethu yn cyrraedd disgwyliadau | 18 | 18 | 25 |
| Amgylchiadau teuluol | 32 | | |
| **Cyfanswm** | **184** | **184** | **206** |

## Canfyddiadau

Mae colled net gofalwyr maeth wedi gostwng yn sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn rhoi seiliau i Faethu Cymru, gan dynnu sylw'r un pryd at yr angen am fwy o ffocws ar recriwtio a chadw er mwyn sicrhau y gall Maethu Cymru sicrhau twf o fewn darpariaeth faethu awdurdodau lleol. Bydd yr Ymrwymiad Cenedlaethol a'r Strategaeth Farchnata yn allweddol i gyflawni hyn.

# pobl gysylltiedig recriwtio a chadw


3

## Recriwtio

**Negeseuon allweddol:**


- Parhaodd y galw am asesiadau pobl gysylltiedig gan awdurdodau lleol yn uchel gyda 999 o asesiadau dichonoldeb yn cael eu cynnal, gyda 75% (n744) o'r rhain yn cael eu cynnal gan staff gwasanaethau maethu / ar y cyd a'r gweddill gan dimau eraill.
- Dyrannwyd mwy na thair gwaith cymaint o asesiadau pobl gysylltiedig nag asesiadau prif ffrwd h.y. 744 o gymharu â 230. Mae hyn yn cynnal patrwm a welwyd ers sawl blwyddyn.
- Roedd 350 o gymeradwyaethau pobl gysylltiedig newydd, cynnydd o 22% (n64).
- Nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a wnaed yn dilyn yr asesiadau dichonoldeb hyn oedd 181, gostyngiad o 8.4% (n14).
- Roedd 1,670 o blant yn byw gyda Gofalwyr Maeth Person Cysylltiedig ar ddiwedd 23/24, cynnydd o 0.2% (n3) ers 22/23.

**Asesiadau Cychwynnol/Dichonoldeb**




| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Asesiadau cychwynnol/dichonoldeb a gyfeiriwyd at y gwasanaeth maethu | 999 | 856 | 1059 |
| Asesiadau cychwynnol / dichonoldeb a gwblhawyd gan y gwasanaeth maethu/ar y cyd | 744 | 568 | 811 |
| Asesiadau cychwynnol/dichonoldeb cadarnhaol gan y gwasanaeth maethu | 548 | 534 | 469 |
| Asesiadau cychwynnol/dichonoldeb a gwblhawyd gan dimau gofal plant yn unig | 154 | 208 | 276 |

### Asesiadau Pobl Gysylltiedig Llawn




| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Asesiadau llawn wedi'u dyrannu | 744 | 651 | 621 |
| Cymeradwywyd fel pobl gysylltiedig | 350 | 308 | 286 |
| GGA wedi'i roi | 181 | 167 | 167 |

## Canfyddiadau

Mae'r galw ar wasanaethau mewn perthynas ag asesiadau personau cysylltiedig yn parhau i fod yn uchel ar draws awdurdodau lleol a chynyddodd lefel y ceisiadau am asesiadau dichonoldeb ac asesiadau llawn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfran yr asesiadau dichonoldeb cychwynnol a gwblhawyd gan y timau maethu neu ar y cyd â thimau gofal plant oedd 74.4% (n744), o gymharu â 66% (n568) y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos bod yr adnodd sydd ei angen ar gyfer yr asesiadau dichonoldeb hyn yn dod yn bennaf o'r tu mewn i'r gwasanaethau maethu a'i fod yn cael effaith bellach ar gapasiti asesu gweithwyr cymdeithasol ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd.

Gostyngodd cyfran yr asesiadau dichonoldeb cychwynnol yr ystyriwyd eu bod yn gadarnhaol i 55% (n548 o 999) o 62% (n534 o 856) y flwyddyn flaenorol.

Pan fo'r ffigurau hyn yn cael eu cymharu'n uniongyrchol â gofynion asesu prif ffrwd mae angen mwy na thair gwaith cymaint o asesiadau pobl gysylltiedig yn cael eu dyrannu pob blwyddyn. Yn 23/24 roedd 76.4% o'r holl asesiadau a ddyrannwyd gan wasanaethau maethu ar gyfer asesiadau pobl gysylltiedig, gyda 230 o asesiadau prif ffrwd o gymharu â 744 o asesiadau personau cysylltiedig.


Mae gan hyn oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ar gyfer gwasanaethau maethu a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer asesiadau a chymorth prif ffrwd. Mae nifer y gofalwyr maeth bobl gysylltiedig newydd sy'n cael eu cymeradwyo hefyd wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf er bod nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a wnaed i ddechrau o ganlyniad wedi gostwng.

# Cadw


**Negeseuon allweddol:**


- Cynyddodd nifer y gofalwyr maeth person cysylltiedig yng Nghymru ymhellach gyda chynnydd net o **91** o aelwydydd gan gynnwys cymeradwyaethau 350 o aelwydydd a 375 o leoliadau yn 2023/24.
- 7.4% yn fwy o aelwydydd maeth **pobl gysylltiedig** (n18) wedi peidio â chael eu cymeradwyo nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Y prif reswm dros adael y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd gwneud **Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig**.
- **Yr ail reswm uchaf dros fod aelwydydd** yn peidio â chael eu cymeradwyo oedd oherwydd nad oedd gofyn iddynt ofalu am y plentyn. Mae hyn yn dangos bod asesiadau wedi'u cynnal lle nad oedd angen y gofalwyr wedi hynny, er bod y nifer hwn wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd mwy o aelwydydd maethu person cysylltiedig yn peidio â chael eu cymeradwyo oherwydd cwynion, pryderon a honiadau.


**Cynnydd a Gostyngiad net Gofalwyr Pobl Gysylltiedig Cymru gyfan**




| | 2023-24 | | 2021-22 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau | Aelwydydd | Lleoliadau |
| Nifer y cymeradwyaethau yn ystod y flwyddyn | 350 | 375 | 308 | 439 | 286 | 406 |
| Nifer wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn | 259 | 336 | 241 | 303 | 312 | 420 |
| Cynnydd/ Gostyngiad Net | +91 | +39 | +67 | +136 | -26 | -14 |




**Rheswm dros fod Gofalwyr Maeth Pobl Gysylltiedig yn peidio â chael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth**

| | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth hir | 3 | 2 | 1 |
| Salwch / Profedigaeth/ Perthynas yn chwalu / Adleoli | 17 | 22 | 19 |
| Newid Gyrfa | 3 | 10 | 0 |
| Trosglwyddo i ALl arall | 0 | 2 | 0 |
| Trefniant PRB / llety â chymorth | 23 | 22 | 35 |
| Gorchymyn Gwarcheidaeth Arbennig wedi ei wneud | 88 | 85 | 149 |
| Gorchymyn Mabwysiadu wedi ei wneud | 1 | 3 | 0 |
| Pryderon / cwynion / honiadau | 14 | 7 | 12 |
| Plentyn yn dychwelyd adref | 43 | 43 | 48 |
| Cymeradwywyd gofalwr ond nid oedd ei angen | 29 | 43 | 42 |
| Nid oedd maethu yn cyrraedd disgwyliadau | 8 | 2 | 6 |
| **Cyfanswm** | **259** | **241** | **312** |

## Canfyddiadau

Bu cynnydd net o 91 o aelwydydd a 39 lleoliad ers y llynedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gofalwyr a gymeradwywyd ar gyfer nifer o blant yn dod â'u cymeradwyaeth fel gofalwyr maeth i ben ac mae'r mwyafrif o gymeradwyaethau newydd ar gyfer 1 plentyn yn unig, ynghyd â newidiadau statws cymeradwyo drwy'r flwyddyn.

Yr ail reswm uchaf dros beidio â chael eu cymeradwyo oedd oherwydd nad oedd angen iddynt ofalu am y plentyn. Mae hyn yn dangos asesiadau wedi eu cynnal lle nad oes angen gofalwyr, er bod y nifer hwn wedi gostwng 32% (n14) o'r flwyddyn flaenorol.

Roedd mwy o aelwydydd maethu yn peidio â chael eu cymeradwyo oherwydd cwynion, pryderon a honiadau, mae hyn wedi cynyddu 100% (n7) ers y flwyddyn flaenorol.

# costau cysylltiedig

4

**Negeseuon allweddol:**

- Gofal maeth Awdurdodau Lleol yw'r mwyaf cost-effeithiol o hyd o'r lleoliadau maethu yn y sector yng Nghymru.
  - Cost wythnosol lleoliad prif ffrwd yr ALl ar gyfartaleddd yw **£547** (gan gynnwys costau lleoliad a chymorth gwasanaeth cyfan).
  - Cost wythnosol lleoliad ALl i bobl gysylltiedig ar gyfartaledd yw **£386** (gan gynnwys costau lleoliad a chymorth gwasanaeth cyfan).
  - Cost wythnosol lleoliad annibynnol yn y 3ydd sector ar gyfartaledd yw **£845** (gan gynnwys yr holl gostau a godir i'r ALlau)
  - Cost wythnosol lleoliad masnachol annibynnol ar gyfartaledd yw **£926** (gan gynnwys yr holl gostau a godir i'r ALl).
- Ar gyfartaledd, cost lleoli plentyn mewn lleoliad asiantaeth maethu annibynnol (AMA) masnachol neu 3ydd sector yw, o leiaf, **£19,708** yn ychwanegol y plentyn y flwyddyn.
- Pe bai pob lleoliad AMA masnachol yn dod yn ôl i ddarpariaeth awdurdod lleol, byddai'r arbedion cost i awdurdodau lleol yn **£25,076,914**.
- Mae lleoliadau gydag asiantaethau maethu annibynnol yn cyfrif am 53% o'r holl gostau lleoliad, ac ar yr un pryd yn darparu dim ond 28% o gyfanswm yr wythnosau gofal.
- Mae costau wythnosol trefniadau Rhieni a Phlant ar gyfartaledd yn dilyn patrwm tebyg
  - **£825** ar gyfer darpariaeth ALl
  - **£1,779** ar gyfer lleoliadau masnachol a
  - **£5,204** ar gyfer lleoliadau preswyl
- Mae'r gost ychwanegol o osod trefniant Rhiant a Phlentyn mewn AMA masnachol yn **£11,448** yn fwy ar gyfer lleoliad 12 wythnos ac o fewn lleoliad preswyl mae'n **£52,548** am yr un hyd o leoliad.

## Costau Maethu Cymru

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau plant sy'n derbyn gofal wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae'r gyfran fwyaf o hyn yn tueddu i gael ei gwario ar ofal maeth. Yn 2023/24 gwariwyd £137.99m ar wasanaethau maethu a ddarperir yn uniongyrchol ac a gomisiynir.

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol sy'n ffurfio Maethu Cymru o gyllidebau'r awdurdodau lleol eu hunain, ond mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth grant i gefnogi lefel o seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol yn ogystal â dulliau newydd ac ychwanegol mewn awdurdodau lleol. Yn 2023/24 roedd hyn yn cyfateb i oddeutu 2.2% o'r gwariant cyffredinol ar ofal maeth yng Nghymru; mae llawer o gymorth grant Llywodraeth Cymru ar gael i awdurdodau lleol drwy Faethu Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyllid sydd ar gael i Faethu Cymru yn genedlaethol ar gyfer 2023/24.

**04** Costau Cysylltiedig

| **Ffrwd a Ffynhonnell Incwm** | **Dyrannu gwariant** | | **Cyfansymiau** |
|---|---|---|---|
| CLlLC – Dyraniad o'r GCR **£504,444** (cadarnhau yn flynyddol) | Costau staff, swyddfa a chydlynu cenedlaethol. Cyllid tuag at 6 Rheolwr Datblygu Rhanbarthol a gyflogir gan ALlau arweiniol | £504,444 | **£504,444** |
| Grant Llywodraeth Cymru 'Brand Cymru Gyfan' **£558,700** (wedi'i sicrhau hyd 31.03.25) | Staff | £116,100 | **£558,700** |
| | Cyllid tuag at 6 Swyddog Marchnata Rhanbarthol a gyflogir gan ALlau arweiniol | £132,000 | |
| | Cynnal a datblygu Gwefan Genedlaethol | £6,025 | |
| | Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus cenedlaethol a lleol | £304,575 | |
| Grant Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Maethu Cymru' **£1,980,829** (wedi'i sicrhau hyd 31.03.27, wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer 23/24 a 24/25) | Seilwaith – costau staff a chynnal | £186,479 | **£1,980,829** |
| | Swyddogion Recriwtio | £793,100 | |
| | Recriwtio, Asesu a Chefnogi | £901,250 | |
| | Marchnata Ychwanegol | £34,000 | |
| | Proffliau Gofalwyr Maeth | £46,000 | |
| | Dysgu a Datblygiad | £20,000 | |
| Cyllid prosiect Ffioedd a Lwfansau **£48,100** (prosiect tymor byr) | Ffioedd a Lwfansau blwyddyn 1 | £48,100 | **£48,100** |
| **Total Income** | | | **£3,092,073** |

Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
029 2087 3797